Siarter ar gyfer Teuluoedd sydd wedi Dioddef Profedigaeth drwy Drasiedi Cyhoeddus

Wrth fabwysiadu'r Siarter hon, rwyf yn ymrwymo i sicrhau bod Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu, a'i aelodau, yn dysgu gwersi trychineb Hillsborough a'i ganlyniadau, fel nad yw safbwynt y teuluoedd mewn profedigaeth yn cael ei golli.

Rwyf yn ymrwymo i Gyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu ddod yn sefydliad sy'n gwneud pob ymdrech i:

1. Pe byddai trychineb cyhoeddus, gefnogi gweithredu cynlluniau argyfwng a dosbarthu adnoddau i achub dioddefwyr, i gefnogi'r rhai mewn profedigaeth ac i ddiogelu'r rhai agored i niwed.

2. Osod budd y cyhoedd uwchlaw ein henw da ein hunain.

3. Ymdrin â dulliau craffu cyhoeddus - gan gynnwys ymchwiliadau a chwestau cyhoeddus - mewn modd didwyll, agored, gonest a thryloyw, gan ddatgelu dogfennau, deunyddiau a ffeithiau perthnasol yn llawn. Ein hamcan yw cynorthwyo wrth chwilio am y gwirionedd. Rydym yn derbyn y dylem ddysgu o ganfyddiadau craffu allanol ac o gamgymeriadau'r gorffennol.

4. Osgoi ceisio amddiffyn yr hyn na ellir ei amddiffyn neu ddiystyrru neu ddifrïo'r rhai hynny a allai fod wedi dioddef yn sgil ein diffyg ni.

5. Sicrhau bod pob aelod o staff yn trin aelodau o'r cyhoedd a'i gilydd gyda pharch a chwrteisi. Lle rydym yn ddiffygiol, dylem ymddiheuro'n ddidwyll ac yn ddiffuant.

6. Gydnabod ein bod yn atebol ac yn agored i gael ein herio. Byddwn yn sicrhau bod prosesau mewn lle i ganiatáu i'r cyhoedd ein dal i gyfrif am y gwaith rydym yn ei gyflawni ac am y modd yr ydym yn ei gyflawni. Nid ydym trwy wybod yn camarwain y cyhoedd na'r cyfryngau.



Martin Hewitt QPM
Cadeirydd
Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC)